Dyddiad cyhoeddi: 12 Ebrill 2017

Newidiadau i Gyfansoddiad Powys

Yn dilyn fy neges e-bost dyddiedig 24 Mawrth 2017, rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais dyddiedig 21 Mawrth 2017, sef cais am wybodaeth fel a ganlyn:

'**1. …ar ba resymeg y mae'r gofyniad hwn yn seiliedig arni [i awdurdod lleol Powys ddiwygio ei gyfansoddiad]?**

2. Pa dystiolaeth galed y gwnaeth Swyddfa Archwilio Cymru ei hystyried a arweiniodd at y gofyniad i Awdurdod Lleol Powys gymryd camau brys i ddiwygio'r cyfansoddiad ac atal arweinwyr yr wrthblaid rhag llefaru yng nghyfarfodydd y cabinet.

3. Pam yr ystyriwyd bod y gofyniad mor bwysig fel bod angen cymryd camau brys.'

Dylwn egluro o'r cychwyn cyntaf mai'r hawl i weld gwybodaeth gofnodedig yn hytrach na'r hawl i gael esboniad o'r wybodaeth honno yw'r hawl i wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Fodd bynnag, gall awdurdodau cyhoeddus ddarparu esboniad.

Nid oes gennym wybodaeth sy'n cyfateb i'ch cais. Mae hyn oherwydd nad yw Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Powys ddiwygio ei gyfansoddiad mewn unrhyw ffordd.
Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am fonitro a chynghori Archwilydd Cyffredinol Cymru ac am ddarparu adnoddau, gan gynnwys staff, er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei swyddogaethau. Nid oes gan Swyddfa Archwilio Cymru ei hun unrhyw swyddogaethau o ran archwilio'r Cyngor na rhoi cyfarwyddyd iddo. At hynny, er bod yr Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio ac adolygu Cyngor Sir Powys, ac y gall wneud argymhellion i'r Cyngor, nid yw'r Archwilydd Cyffredinol wedi ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddiwygio ei gyfansoddiad.
Cyfrifoldeb y Cyngor yw penderfynu ar unrhyw newidiadau a wneir i'w gyfansoddiad.

Fodd bynnag, efallai y byddai hefyd yn ddefnyddiol i mi egluro bod staff Swyddfa Archwilio Cymru, wrth gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, wedi adolygu trefniadau llywodraethu Cyngor Sir Powys ac wedi cyflwyno adroddiad drafft i Brif Weithredwr y Cyngor ar 20 Chwefror 2017. Ymddengys i mi fod paragraff 22 (isod) o'r

adroddiad hwnnw yn berthnasol i'ch cais, er ei fod yn ymwneud â rôl cadeiryddion Craffu yn hytrach nag arweinwyr yr wrthblaid.

‘Gall cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu siarad yng nghyfarfodydd y Cabinet. Fodd bynnag, wrth i ni arsylwi ar y Cabinet, roedd yn aneglur i ba raddau y gall cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ddylanwadu ar benderfyniadau o ran newidiadau i wasanaethau ar y cam cymharol hwyr hwn o'r broses gwneud penderfyniadau, a gall eu presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cabinet arwain at ddryswch o ran atebolrwydd i'r aelodau o'r cyhoedd sy'n arsylwi. Rydym yn deall bod cyfarfodydd y Cabinet yn aml yn hir ac nad yw'r Cyngor wedi rhoi ffocws digonol ar flaenoriaethau allweddol yn y cyfarfodydd. Mae angen i'r Cyngor adolygu ac ailffocysu rôl y Cabinet a sicrhau ei fod yn defnyddio systemau llywodraethu eraill yn briodol wrth ystyried newidiadau sylweddol i wasanaethau. Mae'r enghreifftiau a welwyd gennym o ddefnydd effeithiol o drefniadau llywodraethu i lywio newidiadau i wasanaethau yn dangos y gall y Cyngor adeiladu ar y rhain a dysgu ganddynt wrth ystyried newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol.’

Cyflwynwyd yr un deunydd hwn i'r Cyngor ar ei ffurf derfynol ar 22 Mawrth 2017.

Rhoddodd staff Swyddfa Archwilio Cymru adborth i'r Cyngor yn dilyn eu hadolygiad o'r trefniadau llywodraethu. Er na chyfeiriwyd at rôl arweinwyr grwpiau o ran siarad yn y Cabinet yn yr adroddiad terfynol, nodwyd y mater gan staff Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod eu hadolygiad a bwydodd i mewn i'w trafodaethau â'r Cyngor. Trafodwyd y mater gan Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, aelodau'r Cabinet, cadeiryddion craffu ac arweinwyr grwpiau. Wedyn, gwnaeth y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd argymhelliad i'r Cyngor ac, yn dilyn hynny, penderfynodd y Cyngor ddiwygio ei gyfansoddiad.

Nid wyf wedi defnyddio unrhyw eithriadau, ond os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon am fy ymateb, anfonwch e-bost ataf.

Yn gywir,